

1. STATWS PRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwyddeb Adar ^a (Atodiad I) Confensiwn Berne (Atodiad II)
DU a Chymru	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Atodlen 1 a 9) Adar o bryder cadwraeth ^b (rhestr ambr) SoCC ^c
Gwynedd	Dim yn wybyddus

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae'r dylluan wen^d i'w chanfod drwy gyfandir Ewrop ac mae'n bresennol ym mhob cyfandir drwy'r byd, heblaw yn yr hinsoddau oeraf. Mae arolwg mwyaf diweddar y DU¹ yn awgrymu poblogaeth o tua 4,000 o barau sy'n magu. Serch hynny, nid yw'r tueddiadau poblogaeth ar hyn o bryd yn cael eu monitro bob blwyddyn. Yn y DU ar y cyfan, mae cynhyrchiant y dylluan wen (a fesurir gan faint nytheidiau a chyfraddau methiant nytheidiau) wedi tueddu i wella ers yr 1950au a'r 1960au pan fo'n ymddangos fod y rhywogaeth wedi cael ei effeithio gan blaladdwyr organoclorin², serch hynny, disgrifir y tueddiad tymor hir ar gyfer y DG fel amhendant³.

Bu gostyngiad anferth yng Nghymru ers y 1930au, ac ar hyn o bryd, amcangyfrifir fod yma oddeutu 200 o barau sy'n magu⁴.



1.3 Statws yng Ngwynedd^e

Mae'n debygol fod y dirywiad ledled y DU wedi ei adlewyrchu yng Ngwynedd. Mae data sydd ar gael yn awgrymu fod tua 20 o barau ar gyfartaledd yn nythu bob blwyddyn yng Ngwynedd yn ystod chwarter olaf yr 20fed ganrif.

Yn y sir hon, mae'r dylluan wen yn aderyn tir isel a thir amaethyddol. Ei chadarnleoedd yw Pen Llŷn, Eifionydd, Arduwy a Dyffryn Dyfi. Hefyd, mae'n nythu'n gyson mewn chwareli uwchben Penygroes a hyd yn oed ar yr arfordir yn Arfon. Hefyd, mae tylluanod gwyn wedi nythu ar rostir llwm ym Meirion, yn fwyaf amlwg yn Nyffryn Eden uwchben Ganllwyd ac yng Nghwm Prysor. Mae'n llai niferus ar arfordir gogleddol y sir ac yn anghyffredin ac i'w weld yn anaml ym mhen dyffrynnoedd Gwyrfai, Seiont ac Ogwen.

^a Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC 2 Ebrill 1979 ar warchod adar gwyllt

^b Statws poblogaeth adar y DG - Adar o bryder cadwraeth: 2002 - 2007, rhestr ar gael oddi ar wefan JNCC

^c Rhestr Rhywogaethau'r DG o Bryder Cadwraeth

^d *Tyto alba*

^e Yn y ddogfen hon, mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir fel arall

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH HON YNG NGWYNEDD^f

- Diffyg / colli cynefin porthi (e.e. porfa arw, gwrychoedd a ffosydd) yn bennaf oherwydd newidiadau mewn arferion ffermio (fel draenio / ailhadu hen borfeydd tamp, cynnydd mewn cyfraddau stocio), coedwigiad.
- Diffyg / colli safleoedd nythu (hen sgunoriaid a thyllau mewn coed), oherwydd bod hen adeiladau'n adfeilio neu'n cael eu trawsnewid (yn enwedig hen sgunoriaid ac adeiladau allanol ffermydd) a cholli boncyffion coed gwag.
- Gallai gwenwyno llygod mawr fod yn broblem - mae'r defnydd o wenwyn llygod ail genhedlaeth yn achosi pryder sylweddol.
- Gall lleiniau ochr ffordd fod yn gynefin hela ardderchog ar gyfer tylluanod gwyn o leiaf tan fydd y coed a'r isdyfiant wedi sefydlu. Serch hynny, caiff tylluanod gwyn eu lladd o bryd i'w gilydd gan geir, a gallai hyn gael effaith negyddol ar y boblogaeth leol.

3. CGR / CGC CYSYLLTIEDIG GWYNEDD

Ymylon caeau âr, Adeiladau, Cloddiau, Gwrychoedd, Porfa asid sych tir isel, Dolydd a phorfeydd tir isel, Porfa rhos, Coridorau cludiant, Hen goed, Porfa goed tir isel a thir parc

Adar Tir Fferm

4. CAMAU GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae'r daflen *Bywyd Gwyllt ac Adeiladau - canllawiau ar gyfer perchenogion eiddo*, sy'n cynnwys gwybodaeth / cysylltiadau ynglŷn â'r hyn i'w wneud os oes tylluanod gwyn yn eich adeilad, yn cael ei rhannu gan Gyngor Gwynedd i bob ymgeisydd perthnasol ar y cyd efo materion cynllunio fel adnewyddu neu drawsnewid adeiladau.
- Gellir canfod tylluanod gwyn mewn mannau yng Ngwynedd a ddynodir fel safleoedd Bywyd Gwyllt posibl, neu safleoedd wedi eu dynodi fel SoDdGA, yACA neu AGA

4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Gallai Cynlluniau Grant ar gyfer rheoli coetiroedd (e.e. Cynllun Grant Coetir) a rheoli amaeth-amgylcheddol (e.e. Tir Gofal), gyfrannu tuag at gynnal a gwella cynefin sy'n addas ar gyfer y dylluan wen - gellir ariannu bocsys nythu ar gyfer y dylluan wen fel Dewis Gwaith Cyfalaf dan Dir Gofal.
- Mae Comisiwn Coedwigaeth yn rheoli coetiroedd dail llydan a choniwydd, a rhodfeydd coedwig i greu cynefin ar gyfer eitemau prae - hefyd maent yn gosod ac yn monitro bocsys nythu / clwydo ar gyfer tylluanod gwyn i'w meddiannu ac i fagu ynddynt yn llwyddiannus.
- Mae prosiect lleol sy'n ymwneud ag Afon Gwyrfaï ac ardal Y Foryd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda Chymdeithas Adara a Chadwraeth Y Foryd, ffermwyr / perchenogion tir a Chyngor Gwynedd. Y nod yw gosod bocsys tylluanod gwyn mewn mannau wedi eu targedu, monitro eu llwyddiant, cofnodi unrhyw gipolwg ohonynt a rhoi cyngor ar reoli cynefinoedd ar gyfer tylluanod gwyn mewn modd positif.

4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Mae Grwp Astudio Adar Ysglyfaethus - Gogledd Orllewin yn gosod bocsys, yn cynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig ac yn cymryd rhan ac yn cydlynu arolygon cenedlaethol a drefnir gan Ymddiriedolaeth Adaryddol Prydian a'r Hawk and Owl Trust.

^f Gweler hefyd HAPs cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sy'n effeithio ar gynefinoedd y rhywogaeth hon.

- Mae gweithwyr trwyddedig GrwpAstudio Dar Ysglyfaethus - Gogledd Orllewin yn monitro safleoedd, yn gosod modrwyau ar adar ac yn asesu llwyddiant magu

5. AMCANION CYNLLUN GWEITHREDU

Sefydlu statws presennol a dosbarthiad tylluanod gwyn yng Ngwynedd

Diogelu a chynnal safleoedd magu presennol y dylluan wen

Adfer a gwella safleoedd addas posibl eraill ar gyfer y dylluan wen er mwyn cynyddu poblogaeth a dosbarthiad y dylluan wen.

Sicrhau nad yw poblogaeth y dylluan wen yng Ngwynedd yn gostwng i lai nag 20 o barau

Defnyddio'r dylluan wen fel rhywogaeth bwysig i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rheoli ei gynefinoedd cysylltiedig mewn modd priodol.

6. CAMAU GWEITHREDU BWRIEDIG

Cod	Cam Gweithredu	Partner(iaid) ⁹
Polisi a deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio (fel darparu mynediad a strwythurau nythu, creu cynefinoedd neu safleoedd nythu eraill) er mwyn sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif (gan gynnwys sgboriaid wedi eu trawsnewid, colli cynefin bwydo tylluanod gwyn) yn gydnaws â chadwraeth tylluanod gwyn. TARGED/ AMSERLEN: cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd		
2	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant (gan gynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a /neu gytundebau rheoli lle bo'n briodol) i gynyddu manau bwydo posibl ar gyfer y dylluan wen, drwy ymestyn manau o borga heb ei wella/wedi ei rannol wella a darparu pentiroedd i gaeau â'r lle gellir ailsefydlu poblogaethau mamaliaid TARGED/ AMSERLEN: I'w osod/ cyfredol	CCGC, AACCG, CPSC, CyT GGCFBG, UAC, UCF, CG,
3	Annog darparu safleoedd nythu addas (gan gynnwys bocsys nythu artiffisial), drwy ddefnyddio cynlluniau grant lle bôn yn berthnasol, mewn manau gyda chynefin bwydo addas TARGED/AMSERLEN: I'w osod/ cyfredol	GAAYC-GC CCGC, CG,
4	Cesio am nawdd I datblygu cronfa grant bioamrywiaeth a fyddai'n rhoi grantiau ar gyfer rheolaeth addas, ail greu a chreu cynefin bwydo a darparu safleoedd nythu addas (gan gynnwys blychod nythu) mewn ardaloedd gyda chynefin bwydo addas TARGED/AMSERLEN: erbyn 2005	CG, Partneriaid perthnasol
5	Sicrhau bod y posibilrwydd fod tylluanod gwyn yn bresennol a gofynion rheoli yn cael eu hystyried mewn unrhyw gynlluniau rheoli perthnasol neu gynlluniau grant (Gan gynnwys CRCC, OGC, Tir Gofal) , drwy ymgynghor (gan gynnwys trafod a sylwadu) rhwng partneriaid gan gynnwys GAAYC-GC. TARGED: Mynd rhagddo	GAAYC-GC CCGC, CG, AACCG, CcTh
6	Sicrhau fod unrhyw efetihau posib a ddaw yn sgil datblygiadau adeiladu neu ffrdd yn cael eu hystyried a bod mesurau priodol yncael eu rhoi mewn lle i finimeiddio y rhain TARGED/ AMSERLEN: cyfredol	CG, GAAYC-GC, CG, CCGC,

⁹ Dangosir y partner arweiniol ar gyfer y cam gweithredu mewn teip du tywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

Cynghori		
7	Darparu cyngor a hyfforddiant rheolaidd ar faterion cadwraeth tylluanod gwyn, a sut i adnabod arwyddion fod tylluanod gwyn yn bresennol, ar gyfer swyddogion rheoli datblygu, peirianwyr priffyrdd, gan gynnwys hyrwyddo unrhyw weithgareddau hyfforddi gan Grwp Llywio Dyfrgwn a Lonydd TARGED/ AMSERLEN: Bob blwyddyn, gan ddechrau yn 2004	CG, CCGC, GAAYC-GC
8	Darparu cyngor ar dylluanod gwyn a rheoli cynefinoedd i berchenogion tir a rheolwyr tir TARGED/ AMSERLEN: Ymateb ar sail ad hoc/ cyfredol	GCFBG, CPSCCGC, CG, CBNGC, RSPB, CFGA, GAAYC-GC
Arolygon, ymchwil a monitro		
9	Sefydlu proses flynyddol o fonitro ymdrechion tylluanod gwyn i nythu ym mhob safle nythu gwybyddus a chyraeddadwy, gan weithwyr maes addas wedi eu trwyddedu, a chynnwys yr wybodaeth ar gronfa ddata leol y GAAYC-GC. Hyn i gynnwys modrwyo, pwyso a mesur adar ifanc ac aeddfed, a monitro peleni mewn safleoedd nythu er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'u hoffterau bywd lleol. TARGED/ AMSERLEN: cyfredol	GAAYC-GC, CCGC, CFGA,
10	Cynnal arolwg o holl safleoedd nythu gwybyddus a phosibl y dylluan wen yng Ngwynedd. TARGED/ AMSERLEN: erbyn 2005	GAAYC-GC, CCGC, CFGA
11	Monitro unrhyw safleoedd nythu eraill a ddarperir dan amodau cynllunio i asesu eu llwyddiant. TARGED/ AMSERLEN: cyfredol	GAAYC-GC, CCGC,
Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
12	Rhannu taflenni gwybodaeth ar anghenion y dylluan wen o ran ei chynefin (ee. taflenni'r Hawk and Owl Trust, taflenni'r Barn Owl Trust) i berchenogion tir a rheolwyr mewn digwyddiadau lleol a sioeau. TARGED: Mynd rhagddo	CG, GCFBG, CFGA
13	Mewn cydweithrediad efo grwpiau eraill CGBLI Gogledd Cymru, CCGC, GBG a CBNGC, cynhyrchu fersiwn wedi ei diweddaru o'r daflen Bywyd Gwyllt ac Adeiladau, a sicrhau ei bod yn cael ei dosbarthu i rai a allai wneud cais cynllunio, datblygwyr, penseiri TARGED/ AMSERLEN: erbyn 2005	CG, CCGC, GYG, GCFBG,
14	Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhywogaeth hon a'i chynefinoedd cysylltiedig drwy gyhoeddi erthyglau mewn cyhoeddiadau perthnasol ac annerch grwpiau perthnasol (ee. cyhoeddiadau a chyfarfodydd lleol efo undebau amaeth) TARGED/ AMSERLEN: cyfredol	CG, CPSC, CCGC, AACCG, GCFBG, CBNGC, GAAYC-GC,
15	Annog y cyhoedd cyffredinol i gofnodi cipolygon o dylluanod gwyn ac unrhyw rai a anafir ar y ffyrdd, a'u pasio ymlaen i'r GAAYC-GC i'w cydgasglu, drwy roi datganiadau yn y wasg leol bob blwyddyn, a darparu cyngor manwl ar gais. TARGED/ AMSERLEN: cyfredol	CG, CFGA, GAAYC-GC,
16	Sicrhau bod data am y rai a laddir ar y ffyrdd yn cael ei anfon ymlaen i Adran Briffyrdd CG fel y gellir canfod y manau drwg ac ymdrin â materion rheoli ymylon ffyrdd os oes angen. TARGED/ AMSERLEN: cyfredol	CG, CCGC, CFGA, GAAYC-GC

7 PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

7.1 Prif Bartner ar gyfer CGR

Cyngor Gwynedd (CG)

7.2 Partneriaid allweddol

Cymdeithas Prydeinig Saethu a Chadwraeth (CPSC)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Cymdeithas yTirfeddiannwyr (CyT)

Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Grwp Ystlumod gwynedd (GYG)

Undeb Cenedlaethol y ffermwyr (UCF)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (CFGA)

Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru - Gogledd Cymru (GAAYC-GC)

7.3 Cyfleoedd

Undebau amaeth, perchenogion a rheolwyr tir, gwirfoddolwyr, cymdeithasau adara

8 DIOLCHIADAU

Prif awdur: Duncan Brown (Cymdeithas Edward Llwyd)

Ymgynghori: Amy Oliver (Barn Owl Trust), Mark Green (Barn Owl Trust), Jill Jackson (CG), Mark Balaam (CG), Sian Whitehead (CCGC)

Ffotograff: Darin Smith

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, AGA: Ardal Gadwraeth Arbennig, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, YAP: Ymddiriedolaeth Adaryddol Prydain, JNCC: Cyd-Bwyllgor Cadwriaeth Natur, CRCC: Cynllun Rheolaeth Coetir Cynheuid.

Fersiwn 1, 2004

¹ Toms, MP, Crick, HQP a CR Sawyer, 2001. The status of breeding Barn Owls *Tyto alba* in the United Kingdom 1995-97. *Astudiaeth Adar* 48. 23 - 37.

² Percival, S.M. 1990. Population trends in British Barn Owls, *Tyto alba*, and Tawny Owls, *Strix aluco*, in relation to environmental change. *Adroddiad Ymchwil YAP Rhif 57*, Tring.

³ Baillie, S.R. et al, 2002. Breeding Birds in the Wider Countryside: their conservation status 2001. *Adroddiad Ymchwil BTO Rhif 278*. YAP, Thetford. (<http://www.bto.org/birdtrends>)

⁴ Sawyer, C. 1987. The Barn owl in the British Isles: Its past, present and future. Hertford: Hawk and Owl Trust.